Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
| --- | --- |
| ar gyfer | for a |
| CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN | MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |
| ar | on |
| 9 RHAGFYR 2025 | 9 DECEMBER 2025 |
| ➔ am 2:00 o'r gloch 🡐 | ➔ at 2:00 pm 🡐 |

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

# R H A G L E N

**1. COFNODION**

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor Sir: -

- 25 Medi 2025
- 28 Hydref 2025 (Arbennig)

**2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3. CYHOEDDIADAU**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd, Arweinydd y Cyngor neu'r Prif Weithredwr.

**4. CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

**5. CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.12.4 O'R CYFANSODDIAD**

I gyflwyno rhybudd o'r cwestiwn canlynol gan y Cynghorydd Kenneth Hughes i Arweinydd y Cyngor: -

*"Yn dilyn derbyn e bost i ddwyn fy sylw at y ffaith fod yna wrthdaro rhwng dyddiadau Sioe Frenhinol Cymru 2027 a dyddiadau gwyliau haf ysgolion Môn, sydd yn golygu bod ysgolion ar agor am y ddau ddiwrnod cyntaf o'r sioe. Ydi yn bosib i'r deilydd portffolio ddefnyddio ei ddylanwad i geisio cael datrysiad i sicrhau fydd dim gwrthdaro gyda dyddiadau y sioe a dyddiadau gwyliau haf ysgolion Môn yn 2027, hyn yn holl bwysig gan mai Ynys Môn ydi y Sir nawdd yn 2027?"*

**6. RHYBUDD O GYNNIG**

- I dderbyn y Rhybudd o Gynnig canlynol ar ran y Grŵp Annibynnol o Gynghorwyr er mwyn gwneud cais bod Cyngor Sir Ynys Môn yn mabwysiadu cynnig tebyg i'r hyn sydd wedi'i dderbyn ac sydd bellach yn ei le yng Nghyngor Dinas Manceinion: -

*"Nododd adroddiad diweddar gan Marie Curie "marw mewn tlodi (dying in poverty)" fod 28% o bobl mewn gwaith a 16% o bobl o oed pensiwn mewn tlodi yn ystod blwyddyn olaf eu bywyd; mae'r cyfraddau hyn yn sylweddol uwch nac ar gyfer pobl nad ydynt ym mlwyddyn olaf eu bywydau.*

*Gweithiodd yr elusen diwedd bywyd, Marie Curie, gyda Chyngor Dinas Manceinion ar Gynlluniau Treth Cyngor 'arloesol' gan ddweud mai'r Cyngor oedd y cyntaf yn Lloegr i gynnig eithriad llawn ar gyfer pobl â salwch terfynol.*

*Nododd cynigion Manceinion gynlluniau i'r Cyngor i newid ei Bolisi Disgresiwn Treth Cyngor er mwyn cynnwys ymrwymiad penodol i gefnogi pobl sydd wedi derbyn diagnosis o salwch terfynol.*

*Bwriad y cynllun ym Manceinion yw lleihau'r baich ar ofalwyr teuluol ac mae'n mynd yn bell er mwyn gallu helpu / cynorthwyo â chostau annisgwyl lle cafwyd diagnosis lliniarol; yn cynnwys sicrhau pŵer ar gyfer offer meddygol yn y cartref a chaniatáu / galluogi gwres ymlaen ar lefel uwch ac am gyfod hirach; er mwyn helpu i reoli symptomau.*

*Mae Marie Curie yn gofyn i fwy o Gynghorau fabwysiadu agwedd debyg i Fanceinion, a hynny 'ar frys' er mwyn helpu pobl yn eu misoedd, wythnosau a dyddiau olaf o'u bywydau heb iddynt orfod poeni am filiau Treth Cyngor.*

*Mae nifer o Gynghorau eraill bellach wedi mabwysiadu cynigion tebyg er mwyn cefnogi pobl â salwch terfynol yn ystod blwyddyn olaf eu bywydau."*

- I dderbyn y Rhybudd o Gynnig canlynol gan y Cynghorydd Jackie Lewis: -

*Fel aelod etholedig o Ward Talybolion, croesawaf yn fawr y cyhoeddiad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch lleoli Adweithyddion Modwlar Bychan yn Wylfa.*

*Mae gan Ynys Môn draddodiad balch o gynhyrchu pŵer yng Ngorsaf Niwclear Wylfa, a bu'n darparu cyflogaeth o ansawdd i drigolion yr Ynys am ddegawdau.*

*Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r effeithiau posibl ar y cymunedau a'r trigolion sy'n byw yn agos i safle Wylfa felly gofynnaf i'r Cyngor Sir ofalu bod y prosiect yn sicrhau y manteision lleol mwyaf posibl, tra hefyd yn lleihau ac yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol.*

*Rhaid gwrando ar leisiau, anghenion a phryderon trigolion Ynys Môn wrth i brosiect newydd Wylfa symud ymlaen.*

*Felly gofynnaf i ni fel Cyngor Sir Ynys Môn weithio'n ddiwyd i sicrhau bod y buddion economaidd a'r cyfleon gwaith yn dod yn bennaf i drigolion Ynys Môn trwy:*

- *Sicrhau swyddi a chyfleoedd cadwyn gyflenwi i bobl a busnesau lleol*
- *Gweithio gyda'r Adran Dysgu a'n partneriaid yng Ngholeg Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor i sicrhau'r sgiliau angenrheidiol i'n pobl ifanc*
- *Creu sefyllfa sy'n caniatau i bobl ifanc a'u teuluoedd sydd eisoes wedi gadael yr ynys allu dychwelyd*
- *Sicrhau fod ein hiaith a'n diwylliant yn linyn arian trwy gydol y broses*

7. **<u>DIWYGIO'R CYFANSODDIAD - RHOI CYMERADWYAETH DERFYNOL I GYFRIFON BLYNYDDOL Y CYNGOR</u>**

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 25 Hydref 2025.

8. **<u>PENODI AELOD CYFETHOLEDIG ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU</u>**

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 25 Medi 2025

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Non Dafydd (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Geraint Bebb, Jeff M Evans, Neville Evans, Douglas M Fowlie, Glyn Haynes, Kenneth P Hughes, Trevor Ll Hughes MBE, Carwyn Jones, John Ifan Jones, R Ll Jones, Aled M Jones, Gwilym O Jones, Dyfed Wyn Jones, Jackie Lewis, Pip O'Neill, Llio Angharad Owen (gadawodd y cyfarfod am 3.00 pm a dychwelodd am 3.25 pm), Derek Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Ieuan Williams, Robin Williams, Sonia Williams, Liz Wood. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth y Gwasanaethau Tai,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,<br>Pennaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff,<br>Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglenni (GP),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH),<br>Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor Gweddarlledu (FT). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr Dilwyn Evans – Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (mewn perthynas ag eitem 10)<br>Mr Trefor Owen – Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (mewn perthynas ag eitem 9) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Paul Ellis, Euryn Morris, Alwen Watkin, Arfon Wyn<br><br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Pennaeth Democratiaeth |

### 1. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol Cyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd ar 20 Mai, 2025 yn gywir.

## 2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 3. CYHOEDDIADAU

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau canlynol:-

- Llongyfarchiadau i bawb a drefnodd Sioe Amaethyddol Ynys Môn am sicrhau blwyddyn lwyddiannus arall, yn ogystal â phawb o'r Ynys a fu'n llwyddiannus yn y Sioe Frenhinol Brenhinol, Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol.

- Llongyfarchiadau mawr i'r unigolion o Ynys Môn a gafodd eu hurddo i'r Orsedd yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam, gan gynnwys Hywel Wyn Owen, Mared Lewis, Gwyn Anwyl, Nia Wyn Jones a Rhun ap Iorwerth.

- Llongyfarchiadau i bobl ifanc Ynys Môn ar eu canlyniadau TGAU, Safon Uwch a lefel 2 a 3 llwyddiannus dros yr haf. Dymunodd y gorau i'r bobl ifanc hynny a fydd yn gadael i fynd i Brifysgolion. Llongyfarchodd y Cadeirydd hefyd dîm Plant sy'n Derbyn Gofal y Cyngor ar eu llwyddiant diweddar gyda chymwysterau TGAU a llwyddiannau eraill. Mynegodd ei diolch i'r holl staff, athrawon, rhieni a rhieni maeth sydd wedi cefnogi pobl ifanc yn ystod eu harholiadau.

- Cyfeiriodd y Cadeirydd at gynllun Dyfodol Môn y Cyngor Sir sy'n rhoi cyfle i raddedigion lleol gwblhau profiad gwaith gwerthfawr o fewn y Cyngor wrth iddynt weithio tuag at gymhwyster ôl-raddedig. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i benodi pedwar unigolyn graddedig drwy gynllun Dyfodol Môn.

- Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddigwyddiad arbennig a gynhaliwyd ym Mona y penwythnos diwethaf i groesawu Eisteddfod yr Urdd 2026 i'r Ynys.

- Dywedodd y Cadeirydd fod cyfres deledu Rownd a Rownd yn dathlu 30 mlynedd ers iddi gael ei darlledu am y tro cyntaf. Mae'r gyfres, sydd wedi'i lleoli ym Mhorthaethwy, wedi denu buddsoddiad ariannol sylweddol i'r ardal dros y blynyddoedd, ac mae mwy na 100 o bobl bellach yn gweithio ar y rhaglen.

- Llongyfarchiadau i fusnesau ar yr Ynys sydd wedi ennill gwobrau yn ddiweddar. Enillodd Bragdy Cybi a'r cwmni cynhyrchu mêl, Anglesey Bees, sêr yng Ngwobrau'r Great Taste, ac enillodd Distyllfa Llanfairpwll wobr y cynhyrchydd diodydd bach gorau yng Ngwobrau Bwyd a Diod Cymru.

Ar ran y Cyngor Sir, diolchodd y Cadeirydd i'r Gwasanaeth Tân am eu gwaith yn rheoli ac ymladd tanau ar Fynydd Bodafon yn ystod yr haf. Ar un adeg, roedd y tân wedi lledaenu i 1,500 metr sgwâr ond diolch byth chafodd neb ei anafu yn ystod y digwyddiad.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddigwyddiad arbennig a gynhaliwyd yn gynharach y mis hwn gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol i ddathlu taith y Cyngor Sir i ddod yn Ynys sy'n Ystyriol o Drawma. Un o'r uchafbwyntiau oedd enwi Ysgol Gyfun Llangefni

fel yr ysgol uwchradd brif ffrwd gyntaf yn y Deyrnas Unedig i dderbyn y wobr Ystyriol o Drawma ac Iechyd Meddwl gan *Trauma Informed Schools UK*.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddigwyddiad ar 15 Awst, pan ddaeth y Cyngor Sir a Swyddogion RAF y Fali at ei gilydd i goffáu 80 mlynedd ers Diwrnod VJ. Cynhaliwyd seremoni i godi'r faner y tu allan i Swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni. Roedd nifer yn bresennol hefyd yn y digwyddiad cofio a drefnwyd gan y Cynghorydd Aled Morris Jones ym Mynydd Parys gyda'r nos. Roedd y ddau ddigwyddiad, yn ogystal â'r digwyddiad Diwrnod VE ym mis Mai, yn gyfleoedd i gofio'r genhedlaeth a aberthodd gymaint, fel y gallwn fwynhau ein rhyddid heddiw.

* * * *

Cydymdeimlwyd â theulu'r cyn-Gynghorydd Sir Mr Derlwyn Hughes a fu farw'n ddiweddar.

Estynnwyd cydymdeimlad i unrhyw Aelod o'r Cyngor a'r Staff a oedd wedi cael profedigaeth. Safodd Aelodau a Swyddogion mewn tawelwch i dalu teyrnged.

**4. CYFLWYNO DEISEBAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddeisebau.

**5. HYSBYSIAD O GYNNIG**

- Cyflwynwyd Hysbysiad o Gynnig gan y Cynghorydd Aled M Jones :-

  *'Mae Annibynwyr Ynys Môn yn galw ar Gyngor Sir Ynys Môn i geisio adolygiad barnwrol ar y penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i roi caniatâd cynllunio i ddatblygiad Fferm Solar, Alaw Môn.*

  *Mae'r datblygiad arfaethedig hwn wedi achosi llawer o bryder yn ein cymunedau ac mae'n rhaid i ni fel Cyngor Sir geisio herio'r penderfyniad hwn ym mhob ffordd bosibl'*

  Eiliodd y Cynghorydd Kenneth P Hughes y cynnig.

  Dywedodd y Cynghorydd Hughes fod pryder sylweddol ynghylch y penderfyniad i gymeradwyo Fferm Solar Alaw Môn gan Lywodraeth Cymru a pheidio â chaniatáu i'r Cyngor Sir wneud penderfyniad o'r fath. Mynegodd yn gryf bod angen i'r Cyngor wneud cais am Adolygiad Barnwrol o'r penderfyniad a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn y gobaith y gellid gwyrdroi'r penderfyniad. Mae'r Ynys eisoes yn cynhyrchu digon o ynni ar gyfer Cymru gyfan ac ni ddylid defnyddio tir amaethyddol da i ddatblygu ffermydd solar. Dywedodd hefyd fod Cadw Tir Môn wedi gofyn drwy e-bost os nad yw'r Cyngor yn gallu gwneud cais am adolygiad barnwrol y dylid rhoi cymorth ariannol i helpu'r Grŵp Cymunedol i fynd ar drywydd adolygiad barnwrol o'r penderfyniad.

- *Cyflwynwyd Hysbysiad o Gynnig gan y Cynghorydd Gary Pritchard :-*

*'Mae'r Cyngor yn mynegi ei siom a'i rwystredigaeth ynghylch penderfyniad Llywodraeth Cymru i ganiatáu datblygiad Fferm Solar Alaw Môn yn groes i'w polisïau ar ddefnydd o diroedd amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.*

*Gofynnir i'r Cyngor ymchwilio i bob opsiwn posibl, gan gynnwys opsiynau cyfreithiol, i herio'r penderfyniad.'*

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Gary Pritchard, y byddai'n tynnu ei Hysbysiad o Gynnig yn ôl, yn amodol ar welliant gan fod y grwpiau gwleidyddol yn gytûn ynghylch y rhwystredigaeth a'r siom o ddeall bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cymeradwyo Fferm Solar Alaw Môn. Nododd fod Llywodraeth Cymru wedi anwybyddu eu polisïau eu hunain ar ddefnyddio tir amaethyddol da a bod y Cyngor hwn wedi mynegi ei wrthwynebiad ers dechrau'r datblygiad hwn.

Amlinellodd yr Arweinydd ei welliant i'r Cynnig gan y Cynghorydd Aled M Jones fel a ganlyn:-

- *'Bod y Cyngor yn mynegi ei siom a'i rwystredigaeth ynghylch penderfyniad Llywodraeth Cymru i ganiatáu datblygiad Fferm Solar Alaw Môn yn groes i'w polisïau ar ddefnydd o diroedd amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas;*
- *Bod y datblygiad arfaethedig wedi achosi llawer o bryder yn ein cymunedau yn ogystal â chreu pryderon gwirioneddol ynghylch diogelwch bwyd yn y dyfodol;*
- *Gofynnir i'r Cyngor ymchwilio i bob opsiwn posibl, gan gynnwys ceisio Adolygiad Barnwrol, i herio'r penderfyniad hwn yn ogystal â cheisio gweithio ochr yn ochr â Grwpiau Cymunedol eraill sy'n gweithio tuag at nod tebyg;*

Eiliodd y Cynghorydd Jeff Evans y gwelliant i'r Cynnig.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro fod y diwygiad i'r Cynnig yn briodol a chynhaliwyd pleidlais. Pleidleisiodd 28 Aelod o blaid y gwelliant i'r cynnig, a bu i 3 Aelod ymatal.

Dywedodd y Cynghorydd Ieuan Williams, ar ran y Grŵp Annibynnol, fod angen i'r Cyngor herio penderfyniad Llywodraeth Cymru i gymeradwyo Fferm Solar Alaw Môn.

Dywedodd y Cynghorydd Llio Angharad Owen fod y datblygiad fferm solar hon wedi arwain at gryn wrthwynebiad yn y gymuned y mae'n ei chynrychioli ac ar draws yr Ynys. Nododd ei bod wedi cymryd rhan mewn protest yn erbyn datblygiad fferm solar sy'n niweidio natur a dyfodol amaethyddol Ynys Môn. Dywedodd fod penderfyniad Llywodraeth Cymru i gymeradwyo Fferm Solar Alaw Môn yn siomedig gan eu bod yn anwybyddu eu polisïau eu hunain. Wrth dderbyn bod angen ynni cynaliadwy a glân ar gyfer y dyfodol, ni fydd yr Ynys yn elwa o'r datblygiad, ac mae angen i'r Cyngor herio penderfyniad Llywodraeth Cymru.
Ailadroddodd y Cynghorydd Jackie Lewis sylwadau ei chyd-aelodau lleol a diolchodd i'r rhai sydd wedi ymgyrchu yn erbyn y datblygiad yn y cymunedau lleol ynghyd â chefnogaeth yr Aelod Seneddol a'r Aelod Cynulliad dros Ynys Môn. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi anwybyddu pobl Ynys Môn sydd yn erbyn y datblygiad hwn.

Dywedodd y Cynghorydd Robert Ll Jones y byddai'n pleidleisio yn erbyn y gwelliant i'r Cynnig gan ei fod o'r farn bod angen lleihau'r ôl troed carbon ac y dylid cefnogi datblygiad o'r fath.  Dywedodd fod pori o amgylch paneli solar yn lleihau allyriadau carbon ac yn hybu bioamrywiaeth.  Dywedodd ymhellach fod ffermwyr defaid ledled y byd wedi dweud bod caniatáu i anifeiliaid bori o dan y paneli solar yn gwella cynhyrchiant ac yn cynyddu eu hincwm fel ffermwyr.

Dywedodd y Cynghorydd Derek Owen fod pryderon ynglŷn â difrod posibl i Lyn Alaw sy'n cyflenwi dŵr i dros 30,000 o bobl.  Cwestiynodd a ddylid diystyru hyrwyddo Ynys Ynni, a rhoi blaenoriaeth i ddatblygu safle Wylfa.  Dywedodd fod cwmnïau ynni o'r farn bod yr Ynys yn croesawu unrhyw ddatblygiad fel ffermydd solar yn lle datblygiad Wylfa.  Dywedodd y Cynghorydd Owen ymhellach fod pobl ifanc yn gorfod gadael yr Ynys i gael gwaith a bod hynny'n cael effaith ar yr iaith Gymraeg.  Bydd colli 650 erw o dir amaethyddol da ar safle Alaw Môn yn cael effaith enbyd ar gynhyrchu bwyd ac mae angen gwrthod y datblygiad.  Cwestiynodd a yw'r Cyngor wedi ceisio Cyngor Cyfreithiol i herio'r penderfyniad hwn.

Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr fod y Rhaglen Ynys Ynni wedi'i sefydlu i gefnogi prosiectau sydd â buddion economaidd i gymunedau lleol.  Nid oes gan Fferm Solar Alaw Môn unrhyw fudd economaidd i'r Ynys.  Nododd fod y Cyngor wedi ymateb ym mis Tachwedd 2019 i'r ymgynghoriad ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru a'i fod wedi darllen paragraff o'r ohebiaeth  a oedd yn nodi *bod 'y Cyngor wedi adolygu'r ddogfen gefndir sy'n cefnogi'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwynt a solar, mae gwybodaeth mewn perthynas â'r meini prawf, y cyfiawnhad a mwyafrif y tiroedd a ddewiswyd fel ardal flaenoriaeth ar gyfer ynni gwynt a solar yn aneglur.  Nid yw hyn yn dderbyniol ac mae'n peri pryder sylweddol. Mae'r Cyngor yn gwrthwynebu'r dynodiad hwn.'*  Nododd fod y datblygiad hwn yn cael ei yrru gan bolisi a rhoddwyd ymateb cryf gan y Cyngor

Dywedodd y Prif Weithredwr ymhellach fod Cyngor Cyfreithiol arbenigol wedi'i geisio, a bydd angen ystyried y cyngor cyfreithiol hwnnw a dderbyniwyd. Bydd angen i Swyddogion Cyfreithiol ac Ariannol ystyried a yw'n ddoeth ceisio adolygiad barnwrol o fewn yr amserlen ac a yw'n ddefnydd priodol o adnoddau ariannol y Cyngor. Ar ôl hynny, cynhelir ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a'r Aelodau Portffolio perthnasol a gwneir penderfyniad ffurfiol gan y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro fod Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol statudol lle bydd datblygiad o'r fath yn cael effaith aruthrol ar gymuned.  Gallai'r Cyngor gyfrannu tuag at sefydliad trydydd parti i symud ymlaen a cheisio adolygiad barnwrol.  Nododd y byddai angen gwelliant i'r Cyngor gymeradwyo cyfraniad ariannol i gorff trydydd parti, a byddai angen gwelliant i'r Cynnig.  Byddai angen ystyried hefyd gyfanswm y cyfraniad ariannol y bydd y Cyngor yn ei roi a bod y penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn egwyddor yn unig, ac i roi pŵer statudol i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i drafod swm y cyfraniad y byddai'r Cyngor yn ei roi pe bai'n cael ei benderfynu na fyddai'r Awdurdod yn bwrw ymlaen ag Adolygiad Barnwrol.  Nododd mai'r dyddiad cau ar gyfer cychwyn yr achosion yw 6 Hydref, 2025.

Ar y pwynt yma, cymerwyd toriad i drafod y gwelliannau sy'n ofynnol i'r Cynnig gydag Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol a'r Prif Swyddogion.

Yn dilyn y toriad darllenodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Gary Pritchard, yr ail welliant i'r Cynnig fel a ganlyn:-

- *Bod y Cyngor yn mynegi ei siom a'i rwystredigaeth ynghylch penderfyniad Llywodraeth Cymru i ganiatáu datblygiad Fferm Solar Alaw Môn yn groes i'w pholisïau ar ddefnyddio'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas;*
- *Bod y datblygiad arfaethedig wedi achosi llawer o bryder yn ein cymunedau yn ogystal â chreu pryderon gwirioneddol ynghylch diogelwch bwyd yn y dyfodol;*
- *Gofynnir i'r Cyngor ymchwilio i bob opsiwn posibl, gan gynnwys ceisio Adolygiad Barnwrol, i herio'r penderfyniad hwn yn ogystal â cheisio gweithio ochr yn ochr â Grwpiau Cymunedol eraill sy'n gweithio tuag at nod tebyg;*
- *Os nad yw penderfyniad y Cyngor i fwrw ymlaen ag Adolygiad Barnwrol, bydd y Cyngor, mewn egwyddor, yn ystyried rhoi cyfraniad ariannol i Grŵp Tir Môn, yn amodol ar ymgynghori â'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddfa Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.*

Eiliodd y Cynghorydd Aled M Jones y gwelliant i'r Cynnig fel y nodwyd uchod.

Dywedodd y Cynghorydd Pip O'Neill fod defnyddio ynni adnewyddadwy gwyrdd yn hanfodol i ddiogelu newid hinsawdd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Fodd bynnag, roedd o'r farn nad yw Fferm Solar Alaw Môn wedi'i gweithredu'n gywir wrth iddo gefnogi datblygiadau ffermydd solar.

Dywedodd y Cynghorydd Sonia Williams fod yn rhaid ystyried yr Ardal o Harddwch Eithriadol a bod denu twristiaid i'r Ynys yn hanfodol.

Cydnabu Arweinydd y Cyngor y sylwadau ynghylch yr angen am ynni gwyrdd ac effaith newid hinsawdd. Dywedodd nad yw'r Cyngor yn gwrthwynebu ynni solar. Mae'r gwrthwynebiad i'r datblygiad hwn yn Alaw Môn yn seiliedig ar ei raddfa a'r ffaith y byddai'n bosibl gosod paneli solar ar safle tir llwyd a thoeau adeiladau. Bydd y safle arfaethedig yn cymryd erwau o dir amaethyddol ffrwythlon ar adeg lle mae pryderon ynghylch diogelwch bwyd. Dywedodd y Cynghorydd Pritchard yn gadarn nad yw'r Awdurdod yn gwrthwynebu ynni adnewyddadwy nac yn gwrthod cydnabod heriau newid hinsawdd.

Dywedodd y Cynghorydd Aled M Jones fod yna heriau y mae'r wlad yn eu hwynebu oherwydd diogelwch bwyd ac ynni. Dywedodd nad yw'r ynys yn gallu colli tir amaethyddol gwerthfawr, ac mai camsyniad yw meddwl ei bod yn bosibl ffermio a phori defaid o dan fframiau'r paneli solar. Dywedodd nad yw yn erbyn paneli solar, ond bod angen eu codi mewn llefydd priodol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Aled M Jones at Gynllun Solar Borthwen lle achoswyd ddifrod difrifol yn ystod Storm Dara. Mae'r cwmni'n parhau i ddelio â'r difrod a achoswyd ar y safle. Gallai'r difrod o ganlyniad i stormydd o faint Fferm Solar Alaw Môn fod yn fygythiad i fywyd.

Yn unol â pharagraff 4.1.18.4 o'r Cyfansoddiad, gofynnodd y nifer gofynnol o aelodau am bleidlais wedi'i chofnodi ar yr argymhelliad fel y nodwyd uchod.

Roedd y bleidlais a gofnodwyd fel a ganlyn:-

I gefnogi'r gwelliant i'r Hysbysiad o Gynnig :-

Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Non Dafydd, Jeff Evans, Neville Evans, Douglas M Fowlie, Kenneth P Hughes, Trefor Ll Hughes MBE, Aled M Jones, Carwyn Jones, Dyfed W Jones, Gwilym O Jones, John Ifan Jones, Jackie Lewis, Derek Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Margaret M Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Robin Williams, Sonia Williams, Liz Wood. **CYFANSWM 26**

Yn erbyn y gwelliant :-

Y Cynghorydd Robert Ll Jones, **CYFANSWM 1**

Ymatal : Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Pip O'Neill, Keith Roberts **CYFANSWM 3**

**Yn dilyn Pleidlais a Gofnodwyd:**

**PENDERFYNWYD: -**

- **Bod y Cyngor yn mynegi ei siom a'i rwystredigaeth ynghylch penderfyniad Llywodraeth Cymru i ganiatáu datblygiad Fferm Solar Alaw Môn yn groes i'w polisïau ar ddefnydd o diroedd amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas;**
- **Bod y datblygiad arfaethedig wedi achosi llawer o bryder yn ein cymunedau yn ogystal â chreu pryderon gwirioneddol ynghylch diogelwch bwyd yn y dyfodol;**
- **Gofynnir i'r Cyngor ymchwilio i bob opsiwn posibl, gan gynnwys ceisio Adolygiad Barnwrol, i herio'r penderfyniad hwn yn ogystal â cheisio gweithio ochr yn ochr â Grwpiau Cymunedol eraill sy'n gweithio tuag at nod tebyg;**
- **Os nad yw penderfyniad y Cyngor i fwrw ymlaen ag Adolygiad Barnwrol, bydd y Cyngor, mewn egwyddor, yn ystyried rhoi cyfraniad ariannol i Grŵp Tir Môn, yn amodol ar ymgynghori â'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddfa Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.**

## 6. ADOLYGIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnodd)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 17 Gorffennaf, 2025 i'w dderbyn gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo Adolygiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2024/2025.**

## 7. HUNANASESU AC ADRODD AR BERFFORMIAD

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 23 Medi, 2025 i'w dderbyn gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i:-**

- **gymeradwyo'r newidiadau cyfansoddiadol sy'n ofynnol i adlewyrchu'r bwriad i gyfuno'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol a'r Adroddiad Perfformiad (Llesiant) Blynyddol yn un ddogfen integredig dan y teitl Adroddiad Hunanasesu a Pherfformiad (Llesiant) Blynyddol;**
- **cymeradwyo'r newidiadau i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu y bydd yr adroddiad cyfunol y cyfeirir ato uchod yn un o swyddogaethau'r Pwyllgor Gwaith;**
- **awdurdodi'r Swyddog Monitro i wneud y newidiadau cyfansoddiadol sy'n ofynnol i weithredu'r uchod.**

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR AR EFFEITHIOLRWYDD GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2024/25

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol i'w dderbyn gan y Cyngor.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyniad fideo byr i'r Cyngor a dywedodd fod yr Adroddiad Blynyddol yn adroddiad statudol sy'n tynnu sylw at y llwyddiannau o fewn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedodd fod heriau ariannol, ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig. Cyfeiriodd at yr heriau o ran dod o hyd i leoliad i blant sy'n derbyn gofal sydd wedi arwain at orwariant yng Ngwasanaethau Plant a Theuluoedd ond bod cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r gorwariant gyda menter Cartrefi Clyd a'r pecyn gofalwyr maeth i geisio cadw'r plant sy'n derbyn gofal ar yr Ynys. Mae Gwasanaethau Oedolion yn tanwario ar hyn o bryd oherwydd y cynlluniau yn y gwasanaeth hwnnw. Cyfeiriodd ymhellach at y cymhelliant o ran bod yr Awdurdod a staff yn ystyriol o drawma. Mae'r gwaith yn parhau mewn perthynas ag Ynys Oed-Gyfeillgar i Bobl Hŷn a bu Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru'n ymweld â'r Ynys am wythnos gan fynd i weld â nifer o'r gweithgareddau sydd ar gael ynghyd â gweithgareddau'r trydydd sector. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol at y gwaith o foderneiddio'r gwasanaethau anableddau dysgu ledled yr Ynys a chefnogi unigolion ag anableddau dysgu i fyw'n annibynnol. Cyfeiriodd ymhellach at y ffaith bod trosglwyddo staff sy'n gadael yr awdurdod wedi lleihau'n sylweddol, a bod staff yn cael eu hyfforddi i safon uchel sy'n rhoi cyfle iddynt wella eu rhagolygon i wneud cais am rolau uwch o fewn y gwasanaeth. Mae nifer o fyfyrwyr o Brifysgolion Bangor a Wrecsam wedi manteisio ar y cyfle i hyfforddi i fod yn Weithwyr Cymdeithasol a gwneud swyddi eraill o fewn y gwasanaeth. Mae gwaith hefyd wedi'i wneud gyda Choleg Llandrillo Menai i dynnu sylw at y swyddi sydd ar gael i

bobl ifanc mewn rolau Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn y Cyngor. Mae Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd ynghyd â'r Panel Rhianta Corfforaethol. Mae gwaith yn cael ei wneud gydag Arolygwyr Gofal Cymru a chynhelir cyfarfodydd yn rheolaidd.

Diolchodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i staff Gwasanaethau Plant ac Oedolion am eu gwaith.

Cododd y Cynghorydd Ieuan Williams y mater fod adroddiad yn ddiweddar yn y wasg bod plentyn a gafodd ei roi mewn gofal ac a oedd angen ei leoli y tu allan i'r sir wedi costio £1m i awdurdod lleol. Roedd o'r farn y dylai awdurdodau lleol yng Nghymru gydweithio drwy CLILC a Llywodraeth Cymru i sicrhau gofal o safon i unigolion yn eu cymunedau lleol.

Mewn ymateb, dywedodd Aelod Portffolio Plant a Theuluoedd fod gwaith yn parhau gydag awdurdodau lleol eraill ond cytunai fod darparu gofal o safon yn eu cymunedau yn hollbwysig.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod Cartrefi Clyd ar Ynys Môn yn wasanaeth arloesol ar gyfer gofalu am bobl ifanc a'u galluogi i aros yn eu cymunedau lleol yng Nghymru ac nad yw costau gofalu am bobl ifanc mewn gofal yn cael eu talu i gwmnïau preifat dros y ffin.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol 2024/2025.**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i'w dderbyn gan y Cyngor.

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau gan Mr Trefor Owen, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau.

Dywedodd Mr Owen ei bod yn ofynnol i'r Pwyllgor Safonau, yn ôl deddfwriaeth, adrodd yn flynyddol i'r Cyngor yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Dywedodd Mr Owen fod yr adroddiad yn amlinellu dyletswyddau'r Pwyllgor Safonau, a thynnodd sylw at y gwaith a wnaed gydag Aelodau'r Cyngor Sir, Arweinwyr Grŵp a'r Cynghorau Tref a Chymuned wrth gyflawni ei ddyletswyddau. Dywedodd Mr Owen ymhellach fod yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith y mae'r Pwyllgor wedi'i wneud yn unol â'i gyfrifoldebau yn 2024/2025 a chyflwynwyd Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/2026 i'w chymeradwyo'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i:-**

- **Gymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2024/2025;**
- **Cymeradwyo Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2025/2026, gan dderbyn y gellir cynnwys rhai materion ychwanegol, yn unol â'r galw.**

## 10. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2024/25 – ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Mehefin, 2024 i'w dderbyn gan y Cyngor.

Dywedodd Mr Dilwyn Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yr adroddiad yn bodloni gofynion Cylch Gorchwyl y Pwyllgor ei fod yn adrodd yn flynyddol i'r Cyngor Llawn ar ei ganfyddiadau, ei gasgliadau a'i argymhellion ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, trefniadau adrodd ariannol, ymdrin â chwynion a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol. Manylir ar weithgareddau'r Pwyllgor o fewn 2024/2025 yn yr adroddiad. Dywedodd ymhellach ei fod yn dymuno cydymdeimlo â theulu'r diweddar Mrs Sharon Warnes, aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a fu farw ar ddechrau'r haf. Diolchodd i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am eu gwaith ac i staff y Gwasanaeth Democratiaeth sy'n cefnogi'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2024/2025.**

## 11. CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo ar Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Adroddodd Arweinydd y Cyngor fod Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru cyd-fynd â chynllun Llwybr Newydd Llywodraeth Cymru: Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021 (STC), sef dogfen sy'n darparu'r cyfeiriad strategol, y weledigaeth a'r blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru. Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CBC) ar 1 Ebrill 2021 ac mae arno ddyletswydd statudol i baratoi: Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae'r CBC wedi sefydlu ei Is-bwyllgor Trafnidiaeth a Chynllunio Strategol i gyflawni ei swyddogaethau statudol. Mae felly'n arwain ac yn goruchwylio Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ac mae wedi paratoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Nododd fod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini perthnasol i'w drafod.

Dywedodd ymhellach fod gwytnwch y ddwy bont ar draws Afon Menai a heriau trafnidiaeth gyhoeddus sy'n wynebu ardaloedd gwledig wedi cael sylw fel y nodwyd yn yr adroddiad. Fodd bynnag, mae heriau i sicrhau bod yr Awdurdod hwn yn gallu denu grantiau pan fo swyddogaeth yn endid rhanbarthol.

Dywedodd y Cynghorydd Kenneth P Hughes fod y CBC wedi cael eu gorfodi ar awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru. Nododd fod gan y CBC ddyletswydd statudol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol a Chynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae'r cynlluniau hyn yn allweddol i sicrhau bod yr isadeiledd trafnidiaeth yn ddigonol i fynd i'r afael ag anghenion y cymunedau lleol ac amgylchedd y rhanbarth. Dywedodd y Cynghorydd Hughes nad yw'r CBC wedi ystyried y

llwybrau bysiau o fewn ardaloedd gwledig gyda gostyngiad diweddar mewn gwasanaethau bysiau.

Pleidleisiodd yr aelodau, roedd 25 o blaid, 6 yn erbyn gyda 0 yn ymatal.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ym mis Gorffennaf 2025.**

**CYNGHORYDD NON DAFYDD**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Non Dafydd (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Paul Ellis, Jeff M Evans, Neville Evans, Douglas Massie Fowlie, Glyn Haynes, Kenneth P Hughes, Carwyn Jones, John Ifan Jones, R Ll Jones, G O Jones, Dyfed Wyn Jones, Pip O'Neill, Llio Angharad Owen, Derek Owen, Gary Pritchard, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Alwen Pennant Watkin, Ieuan Williams, Robin Williams, Sonia Williams ac Arfon Wyn |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151,<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Rheolwr Perfformiad a Phrosiectau (GP),<br>Swyddog Pwyllgorau (MEH),<br>Swyddog Gweddarlledu Gwasanaeth Pwyllgorau (FT). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr T Ll Hughes MBE, A M Jones, Jackie Lewis, Euryn Morris, Dylan Rees a Liz Wood<br><br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid'<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai.<br>Swyddog Cyfathrebu (GJ). |

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. RHYBUDD O GYNNIG**

Derbyniwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol gan y Cynghorydd Kenneth P Hughes:-

'*Rydym ni fel Grŵp Annibynwyr Môn yn galw ar Gyngor Sir Ynys Môn i gymryd pob cam posibl er mwyn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i ail agor Pont y Borth fel mater o frys.*

*Cafodd y cau ei wneud heb ymgynghori ymlaen llaw a heb hysbysu'r Cyngor Sir'.*

Dywedodd y Cynghorydd Kenneth P Hughes bod pethau wedi symud yn eu blaen ers i Grŵp Annibynwyr Môn gyflwyno'r cynnig. Dywedodd bod y Grŵp yn cefnogi'r Rhybudd a gyflwynwyd gan y cynghorydd Sonia Williams fel y nodir isod.

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Derek Owen.

Roedd y gwelliannau i'r Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Sonia Williams fel a ganlyn:-

*'Rydym ni fel Cyngor yn erfyn ar Lywodraeth Cymru i gyfathrebu â'r Cyngor Sir a dinasyddion ynglŷn â gwaith cynnal a chadw ar y bont ac i beidio â chau'r bont heb rybudd yn y dyfodol.*

*Rydym hefyd yn siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi dal y contractwyr i gyfrif ac am eu hamharodrwydd i ystyried y cysylltiadau rhwng Môn a'r tir mawr a'r effaith ar drigolion a chymunedau'r Ynys.*

*Gofynnwn i Lywodraeth Cymru gamu i'r adwy a chynnig cymorth i fusnesau tref Porthaethwy, sydd wedi dioddef llawer oherwydd yr holl broblemau efo'r Bont dros y 3 blynedd diwethaf. Mae busnesau, yn enwedig busnesau lletygarwch, wedi dioddef yn sgil cau'r bont dros nos.'*

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Robin Williams.

Derbyniwyd y Cynnig diwygiedig yn unfrydol.

Dywedodd y Cynghorydd Dyfed W Jones ei fod yn derbyn nad oedd dewis ond cau Pont y Borth yn ddiweddar am resymau diogelwch, fodd bynnag, mae'r ansicrwydd yn achosi problemau i bobl sydd angen croesi'r bont i'r tir mawr i weithio, ac mae busnesau hefyd wedi cael eu heffeithio yn sgil cau'r bont yn ddirybudd. Nododd bod nifer o sesiynau briffio wedi cael eu cynnal ers 2022 i drafod cynnal a chadw a chau'r bont ond mae diffyg cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cyngor o hyd. Mynegodd yn gryf y dylai Llywodraeth Cymru a'r Contractwyr a benodwyd i wneud y gwaith cynnal a chadw ar y bont gyfathrebu'n llawn â'r Cyngor i osgoi sefyllfaoedd lle mae'n rhaid cau'r bont yn sydyn heb rybudd.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod yn falch o weld bod y pleidiau gwleidyddol yn unedig ynglyn â mater sy'n bwysig i'r Cyngor a thrigolion Ynys Môn sy'n rhwystredig ac yn poeni oherwydd yr ansicrwydd ynglyn â Phont y Borth a'r pryder y gallai gau'n ddirybudd eto, fel sydd wedi digwydd yn ddiweddar. Dywedodd mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y bont ac y dylai fod yn atebol am yr aflonyddwch parhaus i drigolion a busnesau lleol. Mae'r Cyngor, yr Aelod o'r Senedd a'r Aelod Seneddol wedi pwyso ar Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwytnwch y croesiad dros y bont i'r tir mawr. Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal â'r Gweinidog dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru - Mr Ken Skates AS ynglyn â'r ansicrwydd ynglyn â'r bont. Mae trafodaethau hefyd wedi cael eu cynnal â Phennaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gan fod de'r Ynys yn ddibynnol ar y criwiau tân o Fangor.

Dywedodd y Cynghorydd Carwyn Jones ei fod yn cytuno â sylwadau ei gyd-Aelodau a nododd ei fod yn ymwybodol o'r pwysau y mae'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelodau Lleol wedi'i roi ar Lywodraeth Cymru ac UK Highways Ltd., ynglyn â gwytnwch y bont. Dywedodd bod Llywodraeth Cymru angen darparu amserlen ar gyfer y gwaith cynnal a chadw ar Bont y Borth gan fod pobl angen croesi'r bont i fynychu apwyntiadau yn yr ysbyty, mynd i'r gwaith a'r ysgol a chyrraedd yr orsaf drenau ym Mangor.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod Pont y Borth bron yn 200 oed a bod monitro strwythurau o'r fath yn ofyniad statudol. Mae'n rhaid eu harchwilio pob 10 mlynedd a chynnal gwiriadau eraill pob blwyddyn ac felly dylai adroddiad ar strwythur y bont fod ar gael.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod llythyr wedi cael ei anfon at y Gweinidog dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru yn gofyn am fanylion y gwaith sydd ei angen ar y bont ac i weld beth sydd wedi mynd o'i le o ran y bont. Nododd bod y llythyr yn gofyn am sicrwydd bod y gwiriadau gofynnol wedi cael eu cwblhau. Aeth ymlaen i ddweud bod yr Aelod Seneddol wedi codi'r mater yn Nhŷ'r Cyffredin ac y dylid adolygu'r amserlen o 10 mlynedd ar gyfer gwirio strwythurau fel y bont.

Dywedodd y Cynghorydd Sonia Williams ei bod hi'n bwysig bod Pont y Borth yn ddiogel ond mae busnesau ym Mhorthaethwy yn poeni y bydd yn rhaid cau'r bont unwaith eto. Nododd bod Gweinidogion Cymru, yn ystod cyfarfod diweddar, wedi methu â rhoi ateb pendant pan ofynnwyd iddynt gadarnhau'r amserlen ar gyfer y gwaith cynnal a chadw a phryd y bydd y bont yn ailagor yn gyfan gwbl.

Roedd y Cynghorydd Douglas Fowlie yn dymuno cael gwybod a fyddai'r Cyngor yn barod i ddigolledu busnesau ym Mhorthaethwy drwy ad-dalu eu trethi busnes.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer bod y Cyngor yn gweithredu fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru yn gysylltiedig ag ardrethi busnes. Mae'r cyllid a gesglir drwy'r ardrethi busnes yn cael ei anfon ymlaen i Lywodraeth Cymru ac mae'r cyllid hwnnw'n cael ei dalu'n ôl i lywodraeth leol yn unol â'r fformiwla a ddefnyddir ar gyfer y setliad ariannol blynyddol. Nododd nad yw mwyafrif y busnesau'n talu ardrethi busnes gan eu bod o dan y trothwy. Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda busnesau lleol ers 2022 a bod modd parcio'n rhad ac am ddim ym meysydd parcio Porthaethwy er mwyn helpu i annog pobl i ymweld â Phorthaethwy a chefnogi'r busnesau hyn.

Aeth y Cynghorydd Robin Williams ymlaen i ddweud bod angen gofyn cwestiynau difrifol i'r contractwr a benodwyd i gwblhau'r gwiriadau ar y bont gan fod y gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ers 2022; caewyd y bont yn ddirybudd oherwydd bod bolltau ar goll o dan y bont ac fe ddylai'r bont fod wedi cael ei harchwilio'n drwyadl pan gaewyd y bont am y tro cyntaf yn 2022 i weld beth yn union oedd y problemau. Roedd yr Aelodau'n poeni'n arw bod y bont wedi cau'n sydyn oherwydd bod bolltau ar goll o dan y bont a bod cerbydau trwm wedi bod yn teithio dros y bont dros y 3 blynedd diwethaf. Cadarnhaodd y Pennaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff bod y bolltau o dan y bont angen eu newid oherwydd eu bod wedi rhydu ac nid oherwydd bod bolltau ar goll. Nododd bod llythyr wedi cael ei anfon at Lywodraeth Cymru yn gofyn am sicrwydd bod asesiad o'r bont wedi cael ei gwblhau pob 2 flynedd fel bod y Cyngor yn hyderus bod proses asesu drylwyr ar waith. Dywedodd bod cwestiynau wedi cael eu codi â Llywodraeth Cymru ynglyn a ddylai cerbydau trymion fod yn croesi'r bont; ar hyn o bryd mae cyfyngiad a dim ond cerbydau sy'n pwyso hyd at 7.5 o dunelli gaiff groesi'r bont.

Roedd y Cynghorydd Derek Owen yn dymuno cael gwybod os oes asesiad wedi cael ei gwblhau ar Bont Britannia. Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff mai Network Rail yw'r perchennog a bod cais wedi cael ei wneud am dystiolaeth bod asesiadau manwl wedi cael eu cwblhau ar Bont Britannia.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei bod hi wedi bod yn anodd i fusnesau lleol dderbyn cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru pan gaewyd Pont y Borth y tro cyntaf. Byddai'n rhaid i'r busnesau brofi eu bod wedi colli incwm, a dim ond pan oedd y bont a gau. Gan fod y bont bellach ar agor yn rhannol ystyrir bod y bont yn weithredol. Rhoddodd sicrwydd y byddai'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i sicrhau cyllid i fusnesau lleol sydd wedi cael eu heffeithio.

Dywedodd y Cynghorydd Pip O'Neill bod Fforwm Fusnes Cybi wedi derbyn cymorth ariannol yn sgil cau Porthladd Caergybi yn dilyn difrod i'r strwythur angori. Dywedodd yr Arweinydd bod Fforwm Fusnes Cybi wedi casglu'r dystiolaeth angenrheidiol i brofi'r caledi ariannol a wynebwyd gan fusnesau yn sgil cau Porthladd Caergybi. Nododd bod gwaith tebyg yn digwydd yn Ward Aethwy i edrych ar yr effaith ar fusnesau lleol yn sgil cau Pont y Borth yn sydyn yn ddiweddar.

Roedd y Cynghorydd Jeff Evans yn poeni'n arw am gyflwr Pont y Borth a'r ffaith ei bod wedi gorfod cau'n sydyn oherwydd bod y bolltau oddi tani wedi rhydu. Holodd a oes gan fusnesau ffydd yn yr Ynys yn enwedig gyda dyfodiad y Porthladd Rhydd. Dywedodd bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sylweddoli bod trydedd bont yn angenrheidiol. Mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Tân ac Achub leoli injan dân ychwanegol ym Mhorthaethwy oherwydd yr ansicrwydd gyda'r pontydd. Dywedodd yr Arweinydd bod y Gweinidog Trafnidiaeth a Gogledd Cymru yn ymwybodol o'r pryderon dros wydnwch y pontydd dros y Fenai. Mae'n rhaid i'r Awdurdod fod yn hyderus bod busnesau eisiau buddsoddi ar yr Ynys, a bydd y Porthladd Rhydd ynghyd â datblygu safle Wylfa yn gwella'r sefyllfa economaidd. Codwyd cwestiynau pellach ynglyn â stacio lorïau HGV ar yr Ynys pan fo'r pontydd ar gau. Dywedodd yr Arweinydd bod cynllun stacio ar waith, ond nid yw'r Awdurdod yn credu bod y cynllun hwnnw'n ddigon gwydn ac mae trafodaethau ar y gweill i atgyfnerthu'r cynllun stacio fel ei fod yn dderbyniol i gymunedau Ynys Môn. Mae trafodaethau hefyd ar y gweill â Chyngor Gwynedd ynghylch eu gweithdrefnau hwy ar gyfer stacio cerbydau ar y tir mawr.
Dywedodd y Prif Weithredwr bod trydedd bont dros y Fenai wedi cael ei gynnwys yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, ac y bydd yn ysgogi buddsoddiad mewn trafnidiaeth yn y rhanbarth. Eglurodd yr Arweinydd bod Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi cael ei fabwysiadu gan y Cyngor hwn a'r Bwrdd Rhanbarthol; mae gwytnwch y pontydd wedi cael ei nodi

fel un o’r prif heriau yn y Cynllun. Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn Aelod o Dasglu Gwytnwch Môr Iwerddon sy’n cael ei arwain gan Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, Mr Ken Skates AS ynghyd â’r Ysgrifennydd Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Ms Rebecca Evans AS a Gweinidog Llywodraeth Iwerddon dros Drafnidiaeth Ranbarthol a Ffyrdd, Logisteg, Rheilffyrdd a Phorthladdoedd, Mr Sean Canney ynghyd â swyddogion o’r ddwy Lywodraeth. Bydd y Tasglu’n gwella gwytnwch y cysylltiadau dros y môr a’r seilwaith ffyrdd.

Fe wnaeth y Cynghorydd Sonia Williams ailadrodd y pwynt bod angen i Lywodraeth Cymru ddwyn y contractwyr sydd wedi cael eu penodi i archwilio a chynnal a chadw Pont y Borth i gyfrif a’r effaith y mae hyn wedi’i gael ar fusnesau ym Mhorthaethwy.

**Cafodd y gwelliant i’r cynnig ei dderbyn fel a ganlyn:-**

- **Mae Grŵp Annibynwyr Môn yn galw ar Gyngor Sir Ynys Môn i gymryd pob cam posibl er mwyn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i ail agor Pont y Borth fel mater o frys.**
- **Caewyd y bont heb unrhyw ymgynghori ymlaen llaw a heb hysbysu’r Cyngor Sir.**
- **Mae gan y Cyngor bryderon dybryd ynglyn â diffyg gwytnwch y ddau groesiad presennol dros Y Fenai sydd wedi dod i’r amlwg unwaith eto yn sgil cau Pont y Borth yn gyfan gwbl gan adael un croesiad yn unig.**
- **Mae’r Cyngor hefyd yn siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi dal y contractwyr i gyfrif ac am eu hamharodrwydd i ystyried y cysylltiadau rhwng Môn a’r tir mawr a’r effaith ar drigolion a chymunedau’r Ynys.**
- **Gofynnir i Lywodraeth Cymru gamu i’r adwy a chynnig cymorth i fusnesau tref Porthaethwy, sydd wedi dioddef llawer oherwydd yr holl broblemau efo'r Bont dros y 3 mlynedd diwethaf. Mae busnesau, yn enwedig busnesau lletygarwch, wedi dioddef yn sgil cau’r bont dros nos.**

## 3. DATGANIAD O GYFRIFON 2024/2025 AC ADRODDIAD ISA 260

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y’i cyflwynwyd i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 23 Hydref, 2025 i’w gymeradwyo gan y Cyngor.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd a’r Aelod Portffolio Cyllid a Gwasanaethau Tai bod y Datganiad o Gyfrifon drafft ar gyfer 2023/24 wedi cael ei gyflwyno i archwilwyr allanol y Cyngor, Archwilio Cymru, i’w harchwilio ar 30 Mehefin, 2025. Yn amodol ar gadarnhad Cyngor Sir Ynys Môn, bydd y Cyfrifon yn cael eu llofnodi gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a Chadeirydd y Cyngor ac yn cael eu cyhoeddi ar ôl derbyn barn derfynol yr Archwilydd. Y dyddiad cau statudol ar gyfer cwblhau'r Cyfrifon Archwiliedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 yw 31 Hydref 2025.

**PENDERFYNWYD derbyn y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2024/25 ac awdurdodi Cadeirydd y Cyngor Sir a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 i lofnodi'r cyfrifon archwiliedig terfynol ar gyfer 2024/25.**

## 4. AILSTRWYTHURO'R TÎM RHEOLI CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd adroddiad y Prif weithredwr ar ailstrwythuro’r Tîm Rheoli Corfforaethol i’w gymeradwyo gan y Cyngor.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod yr adroddiad yn cyfeirio at ailstrwythuro’r Tîm Rheoli er mwyn gwneud newidiadau staffio a fydd o fudd i’r Cyngor ac yn sicrhau gwytnwch.

Eiliwyd y cynnig gan y Dirprwy Arweinydd ond amlygodd bod angen newid teitl y ddwy swydd Pennaeth Gwasanaeth:-

Pennaeth Gwasanaeth - Digidol, Perfformiad a Moderneiddio
Pennaeth Gwasanaeth - Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad Cwsmer

**PENDERFYNWYD :-**

- **Dileu’r swydd Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid o strwythur Rheoli Corfforaethol y Cyngor;**

- **Creu dau Wasanaeth penodol newydd a Phenaethiaid Gwasanaeth fel a ganlyn:**

  **Pennaeth Gwasanaeth (Digidol, Perfformiad a Moderneiddio)**
  **Pennaeth Gwasanaeth (Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad Cwsmer)**

- **Derbyn y penderfyniadau ym mharagraffau 1 a 2 uchod, i awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i ddiwygio'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r newidiadau uchod wedi i’r Pwyllgor Penodiadau gymeradwyo'r disgrifiadau swyddi newydd.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3:15pm

**Y CYNGHORYDD NON DAFYDD**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

F2. 2025/07

# Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Y Pwyllgor Gwaith<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio<br>Y Cyngor |
| Dyddiadau: | 25/11/2025<br>04/12/2025<br>09/12/2025 |
| Pwnc: | Diwygio'r Cyfansoddiad - Rhoi Cymeradwyaeth Derfynol i Gyfrifon Blynyddol y Cyngor |
| Aelod Portffolio: | |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Lisa Lord, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro Dros Dro |
| Aelodau Lleol: | Pawb |

## A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

**<u>Argymhellion</u>**

**Y Pwyllgor Gwaith**

Bod y Pwyllgor Gwaith yn mynegi barn ar y newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn rhoi'r hawl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, yn hytrach na'r Cyngor, gymeradwyo Cyfrifon Blynyddol y Cyngor yn derfynol.

**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Bod y Pwyllgor yn mynegi barn ar y newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn rhoi'r hawl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, yn hytrach na'r Cyngor, gymeradwyo Cyfrifon Blynyddol y Cyngor yn derfynol.

**Y Cyngor**

Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn rhoi'r hawl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, yn hytrach na'r Cyngor, gymeradwyo Cyfrifon Blynyddol y Cyngor yn derfynol.

**<u>Rhesymau</u>**

- Mae prif gamau proses gymeradwyo Cyfrifon Blynyddol y Cyngor fel a ganlyn:

  1. Ardystio'r cyfrifon drafft - Swyddog Adran 151

  2. Archwiliad cyhoeddus o'r cyfrifon drafft

3. Adolygu'r cyfrifon drafft wedi'u harchwilio - Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

4. Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith er mwyn iddo ystyried y cyfrifon drafft wedi'u harchwilio

5. Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i adolygu'r cyfrifon drafft terfynol

6. Y Cyngor llawn i gymeradwyo'r cyfrifon terfynol

- Mae Cynllun Blynyddol Archwilio Cymru yn cynnwys nod clir i fyrhau'r amserlen archwilio ar gyfer llywodraeth leol. Y dyddiad awdurdodi ar gyfer 2025/26 yw 30/09/2026 ac mae hyn fis yn gynharach na 2024/25.

- Mae hyn yn cywasgu'r amser sydd ar gael i ymateb i unrhyw faterion a godir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cytuno ar unrhyw newidiadau gyda'r Archwilydd Allanol a chynhyrchu fersiwn ddwyieithog ddiwygiedig a chywir o'r cyfrifon terfynol.

- Os bydd y Cyngor yn parhau i fod yn gyfrifol am gymeradwyo'r cyfrifon, yna bydd rhaid symud cyfarfod Medi 2026, neu bydd angen cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor llawn.

- Mae dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn broses gymeradwyo fwy effeithlon. Nid oes unrhyw anfantais i unrhyw gynghorydd, na'r cyhoedd, oherwydd bydd yr adroddiadau'n parhau i fod ar gael yn y ffordd arferol (gweler y broses gymeradwyo lawn uchod).

- Mae Archwilio Cymru wedi awgrymu'r newid arfaethedig er mwyn sicrhau fod ein trefniadau'n cyd-fynd â'r trefniadau presennol sydd ar waith mewn prif gynghorau yng Nghymru.

- Yng nghyd-destun y cefndir hwn, yr hyn y gofynnir amdano yw newid paragraff 3.4.8.12.3 - "*Bydd y Pwyllgor yn adolygu* *a chymeradwyo* *datganiadau ariannol y Cyngor,* ~~*cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y cyngor llawn*~~*, gan gynnwys y rhagair esboniadol, negeseuon allweddol, tueddiadau, cysondeb â pherfformiad ariannol, addasrwydd a chydymffurfiaeth â pholisïau a thriniaethau cyfrifyddu a meysydd dyfarnu pwysig".*

- O dan baragraff 2.15.2.1 o'r Cyfansoddiad "…*ni fydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad hyd oni fydd y Pwyllgor Gwaith wedi ystyried y cynnig*".

- Cyflwynir adroddiad hefyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ar 04/12/2025, er mwyn gofyn barn y pwyllgor hwnnw ar y newid arfaethedig.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

| |
|---|
| Bod y Cyngor llawn yn parhau i fod yn gyfrifol am gymeradwyo'r cyfrifon. Gwrthodwyd hyn gan fod y sefyllfa bresennol yn cael effaith negyddol ar effeithlonrwydd y broses, ac nid yw'r newid arfaethedig yn creu anfantais i unrhyw barti. |

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

| |
|---|
| Nid yw hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith, a bydd y penderfyniad yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn. Fodd bynnag, o dan baragraff 2.15.2.1 o'r Cyfansoddiad, mae'n ofynnol rhoi cyfle i'r Pwyllgor Gwaith gyflwyno sylwadau ar unrhyw newidiadau y bwriedir eu gwneud i'r Cyfansoddiad. |

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

| |
|---|
| Mae'n rhaid i'r Cyngor llawn gymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad (nad ydynt yn ymwneud â 3.5.3.6.6. a 3.4.12.6.3) |

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

| |
|---|
| Nid oes unrhyw effaith ar y gyllideb |

Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys?

| |
|---|
| Mae'r newid arfaethedig yn cefnogi gwneud penderfyniadau effeithlon mewn perthynas â chyfrifon statudol y Cyngor. |

2. A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar y Cyngor yn y dyfodol? Os felly, sut?

| |
|---|
| Nid i unrhyw raddau sylweddol, ond bydd yn osgoi'r angen i gynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor. |

3. A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, gyda phwy?

| |
|---|
| Archwilio Cymru |

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Eglurwch sut.

| |
|---|
| Na |

5. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

| |
|---|
| Dim effaith |

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

| |
|---|
| Dim effaith |

7. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

| |
|---|
| Dim effaith |

## E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori a beth oedd eu sylwadau?

| | |
|---|---|
| 1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol) | Ystyriwyd y mater ar 14/10/2025 pan gytunwyd ar yr argymhelliad. |
| 2. Swyddog Cyllid / 151 | Y Swyddog Adran 151 sydd wedi comisiynu'r adroddiad |
| 3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Awdur yr adroddiad ac mae'n cefnogi'r argymhelliad |
| 4. AD | Amherthnasol |
| 5. Eiddo | Amherthnasol |
| 6. TG | Amherthnasol |
| 7. Caffael | Amherthnasol |
| 8. Sgriwtini | Amherthnasol |
| 9. Aelodau Lleol | Ymgynghorir â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 04/12/2025 |

## F - Atodiadau

## Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach)

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 09/12/2025 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Penodi Aelod Cyfetholedig Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau |
| **ADRODDIAD GAN:** | Panel Dethol y Pwyllgor Safonau |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>lbxcs@ynysmon.llyw.cymru |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Cadarnhau penderfyniad Panel Dethol y Pwyllgor Safonau |

## CEFNDIR

1. O dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2006) mae'n rhaid i'r Cyngor gael Pwyllgor Safonau sy'n cynnwys dim mwy na naw aelod, ac mae'n rhaid i'r mwyafrif o'r rhain fod yn aelodau annibynnol o'r cyhoedd.

2. Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor Safonau'n cynnwys pump aelod annibynnol, dau gynghorydd cymuned a dau gynghorydd sir.

3. Mae'n rhaid i aelodau annibynnol gael eu penodi gan y Cyngor ar sail argymhelliad gan Banel Dethol y Pwyllgor Safonau. Mae un sedd wag achlysurol ar y Pwyllgor Safonau ar hyn o bryd.

4. Mae cyfnod un aelod annibynnol yn y swydd yn dod i ben ar yr 11eg o Ragfyr 2025.

## SEDD WAG AR GYFER AELOD ANNIBYNNOL O'R PWYLLGOR SAFONAU

5. Mae Rheoliadau Statudol yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau'r Pwyllgor Safonau gael eu penodi gan y Cyngor, ond dim ond ar ôl cydymffurfio â phroses ddethol statudol. Er mwyn cynnal y broses recriwtio a dethol hon mae'r Cyngor Sir wedi dirprwyo ei awdurdod i Banel Dethol y Pwyllgor Safonau; mae'r panel hwn yn cynnwys un aelod annibynnol o'r cyhoedd, un cynghorydd cymuned a thri chynghorydd sir (ar sail cydbwysedd gwleidyddol).

6. Aelodau cyfredol y Panel ydi'r Cynghorydd Aled Morris Jones; y Cynghorydd Dylan Rees; y Cynghorydd Margaret Murley Roberts (Cadeirydd); y Cynghorydd Ann Kennedy (Cyngor Tref Caergybi) a'r aelod annibynnol Dr Teleri Mair Jones.

7. Yn dilyn cyfarfod o Banel Dethol y Pwyllgor Safonau ar 23 Medi 2025 cafodd y sedd wag ei hysbysebu ar wefan a rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, yn y Bangor and Anglesey Mail a'r Daily Post. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau oedd 5:00pm ar 10 Hydref 2025.

8. Yn dilyn y dyddiad cau rhoddodd Panel Dethol y Pwyllgor Safonau sylw i'r ceisiadau a ddaeth i law yn ystod proses llunio rhestr fer a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2025. Wrth lunio'r rhestr fer cafodd yr ymgeiswyr eu hystyried yn erbyn y meini prawf a fyddai wedi eu diarddel yn awtomatig. Ar ôl ystyried y ceisiadau, penderfynodd y Panel na ddylid diarddel yr un ymgeisydd rhag cael eu penodi i'r Pwyllgor Safonau.

9. Cafodd yr ymgeiswyr ar y rhestr fer eu cyfweld gan Banel Dethol y Pwyllgor Safonau ar y 6ed a'r 13eg o Dachwedd 2025, a chytunodd y Panel i enwebu **Mr David Davies** i'w benodi'n aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau, yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol; mae'r rheini bellach wedi'u derbyn ac wedi cael eu hasesu gan Gadeirydd Panel Dethol y Pwyllgor Safonau.

**<u>ARGYMHELLION</u>**

Derbyn argymhellion Panel Dethol y Pwyllgor Safonau, sydd fel a ganlyn:-

- penodi **Mr David Davies** yn aelod annibynnol cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau, gyda'i gyfnod yn y swydd yn dod i rym ar y 12fed o Ragfyr 2025; a

- petai sedd wag achlysurol am aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn codi yn ystod y deuddeng mis nesaf, penodi **Dr Margaret Flynn** i'r rôl yn awtomatig heb orfod mynd trwy broses recriwtio arall, ar yr amod, wrth gwrs, bod yr ymgeisydd yn parhau'n gymwys ar gyfer y rôl, ac yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol cyn ei phenodi.